Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Prifysgol Abertawe

Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN25:

# Gwastraff Clinigol Heintus

- Gwastraff nad yw wedi'i Halogi gan Gemegau neu Feddyginiaethau

(Bag Oren a blwch gwastraff clinigol â chaead oren)

| | |
|---|---|
| Diweddarwyd gan: | Ben Harris (Swyddog yr Amgylchedd) |
| **Cymeradwywyd gan:** | Teifion Maddocks (Rheolwr Cynaliadwyedd) |
| **Dyddiad creu:** | 09/11/2018 |
| **Dyddiad y fersiwn:** | 18/11/2025 |

| Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN25<br>Gwastraff Clinigol Heintus Soled (Bag Oren) | |
|---|---|
| Lleoliad Cynhyrchu | Categori Labordy |
| EWC | 18-01-03* a 18-02-02* |
| Dosbarth cludo a rhif UN | Dosbarth 6.2<br>Gwastraff heintus (UN 3291)<br>Sylweddau Categori A (UN 2814/2900/3549)<br>Sylweddau Categori B (UN 3373) |
| Math | Rheoledig - gwastraff peryglus HP9 heintus |
| Dull Gwaredu | Didoli i'w losgi |
| Math o Fin/Fag | Bin metel gwrthdan / **bag oren**<br>**Blwch melyn anhyblyg 30L â chaead oren** |

## Gofynion y Ddyletswydd Gofal

EWC 18-01-03* - Mae gofynion arbennig yn berthnasol i gasglu a gwaredu gwastraff heintus o ofal iechyd pobl er mwyn atal heintiau

EWC 18-02-02* - Mae gofynion arbennig yn berthnasol i gasglu a gwaredu gwastraff heintus o ofal iechyd anifeiliaid er mwyn atal heintiau

**Diffiniad Gwastraff Heintus:** Mae Atodiad III o Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff 2008/98/EC yn diffinio 'Heintus' fel a ganlyn: ‘waste containing viable micro-organisms or their toxins which are known or reliably believed to cause disease in man or other living organisms’.

Mae'n ofyniad cyfreithiol dan y Rheoliadau Gwastraff Peryglus i wahanu gwastraff peryglus oddi wrth wastraff nad yw'n beryglus i sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei ddosbarthu'n gywir. Gall gwaredu gwastraff peryglus yn anghywir drwy ffrwd wastraff nad yw'n beryglus arwain at gosbau cyfreithiol ac ariannol gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y diffyg cydymffurfio.

Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 07-01: Rheoli Gwastraff Gofal Iechyd yn Ddiogel[1], yn darparu arweiniad cynhwysfawr ar waredu gwastraff gofal iechyd yn unol â safonau'r diwydiant a gofynion cyfreithiol, ac yn amlinellu'r system côd lliwiau a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer gwastraff gofal iechyd/clinigol.

| | |
|---|---|
| | **Infectious waste non-medicinally/chemically contaminated** |

Cynhyrchir gwastraff clinigol heintus mewn labordai ymchwil ac wrth weithio ar samplau a llinellau celloedd dynol/anifeiliaid mewn lleoliad clinigol o ganlyniad i drin claf â haint, neu amheuir ei fod â haint, ac sydd wedi'u halogi â'r canlynol (nid yw'n rhestr gynhwysfawr):

- Hylifau'r corff megis gwaed cyfan, plasma a serwm/bustl/mwcws/poer/wrin/ysgarthion

[1] Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 07-01: Rheoli Gwastraff Gofal Iechyd yn Ddiogel

## Eitemau Gwastraff

- Cyfarpar diogelwch personol (PPE) - menig, masgiau wyneb a ffedogau
- Eitemau miniog - chwistrellau, ffleimiau, nodwyddau gwaedu etc
- Tywelion papur a thywelion papur glas
- Weips, gorchuddion, plastrau a rhwymynnau
- Gwastraff anymataliaeth
- Bagiau a thiwbiau halwynau neu glwcos mewnwythiennol (dim meddyginiaethau actif wedi'u hychwanegu)

**Sylwer:**

- **rhaid nad ydynt wedi'u halogi â chemegau/meddyginiaethau (defnyddiwch y biniau â chaead melyn - WMGN26)**
- **ni ddylid rhoi hylifau yn y bagiau oren, e.e. ffiolau sy'n cynnwys gwaed - gellir cael gwared â'r rhain yn y biniau â chaead oren**

Os nad yw'n amlwg a yw unrhyw rai o'r eitemau a restrir uchod wedi'u halogi â hylifau'r corff, **rhaid** gwahanu’r eitem o'r mathau eraill o wastraff a'i rhoi mewn bag/bin oren i'w gwaredu.

Nid yw gwastraff hylendid personol yn cael ei ystyried yn wastraff heintus (oni bai ei fod gan berson heintus)

Rhaid cael gwared â gwastraff anatomegol (p'un a yw'n heintus ai peidio) drwy gynhwysyddion gwastraff â chaead coch (WMGM24).

## Cyfarwyddiadau Gwaredu

### Storio Mewnol

Dylai pob labordy a chlinig sy'n cynhyrchu gwastraff heintus soled fod â biniau gwastraff sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae manyleb safonol wedi'i datblygu ac mae ar gael yma.

Rhaid rhoi pob eitem gwastraff heintus soled naill ai:

- mewn blwch melyn anhyblyg â chaead oren neu
- mewn bagiau oren wedi'u gosod mewn biniau metel gradd glinigol â chaead fflipio.

Rhaid gosod arwydd ar bob bin â'r geiriau 'Gwastraff Clinigol Heintus Soled Yn Unig' arno, fel isod.



Ffigur 1 - Bag oren a bin gradd glinigol gymeradwy / Bin clinigol melyn anhyblyg â chaead oren

**Ni** ddylid rhoi eitemau miniog mewn bagiau oren mewn **unrhyw** amgylchiadau, nac eitemau a allai rwygo'r bag, gan gynnwys blaenau miniog. Dylid rhoi pob eitem finiog heintus mewn blwch â chaed oren ar gyfer eitemau miniog.

Dylid rhoi eitemau soled megis ysgarthion dynol/anifeiliaid mewn biniau â chaead oren.

**Peidiwch â rhoi bagiau oren sy'n cynnwys gwastraff heintus neu wedi'i halogi ym miniau gwastraff ac ailgylchu allanol y Brifysgol. Dylid eu rhoi yn y bin olwynog melyn dynodedig cywir yn unig.**

## Storio/Gwaredu Allanol

Biniau melyn anhyblyg â chaead oren:

Gellir cael gwared â biniau â chaead oren drwy drefnu casgliad gan ddefnyddio'r deilsen **'Gwastraff ac Ailgylchu'** ar Ddesg Gymorth Ystadau

Gwastraff mewn bagiau oren:




Ffigur 2 - Biniau melyn allanol i storio bagiau oren dros dro

Wrth gael gwared â'r bagiau, gwnewch yn siŵr eu bod wedi'u selio yn barod i'w cludo. Rhaid mynd â biniau oren yn ôl i'r lleoliadau canlynol:

## Campws Singleton

- Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd: Compownd Gwastraff ILS2 AC ochr Adeilad Grove

**Ni chaniateir rhoi gwastraff arall neu flychau melyn anhyblyg â bagiau oren ynddynt yn y biniau melyn allanol oherwydd na ddylid cymysgu ffrydiau gwastraff peryglus gwahanol.**

## Cost Gwaredu

Codir tâl am y gwasanaeth hwn, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk


Am ragor o arweiniad, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk

## Ffurflenni a Labelu

Ceir arwydd gwastraff clinigol peryglus soled sy'n heintus isod
Gellir dod o hyd i'r holl ffurflenni a labeli perthnasol a rhagor o arweiniad am wastraff yma

## Atodiad 1 : Diagram Gwahanu a Dosbarthu Gwastraff[2]

Defnyddiwch y diagram llif canlynol i sicrhau eich bod yn defnyddio'r bin lliw cywir i'ch gwastraff




Sylwer: Er bod yr arweiniad hwn yn berthnasol i wastraff o leoliadau clinigol a gofal iechyd yn benodol, gellir ei ddefnyddio hefyd i lywio arferion gwastraff mewn amgylcheddau labordy eraill. Fodd bynnag, cyfeiriwch at y Nodiadau Cyfarwyddyd Rheoli Gwastraff (WMGN) perthnasol ar gyfer gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus arall.

[2] Memorandwm Technegol Iechyd 07-01: Atodiad 3

# GWASTRAFF CLINIGOL SOLED PERYGLUS HEINTUS




# BAGIAU OREN YN UNIG

## GWASTRAFF CLINIGOL SOLED HEINTUS YN UNIG

### BIN METEL CLINIGOL Â CHAEAD FFLIPIO YN UNIG - EWC 18 01 03 *

**EITEMAU**

**PPE - MENIG/MASGIAU/FFEDOGAU - WEIPS - TYWELION GLAS - GORCHUDDION - PLASTRAU - RHWYMYNNAU - GWASTRAFF ANYMATALIAETH WEDI'I HALOGI Â HYLIFAU'R CORFF**

**DIM GWYDR O UNRHYW FATH - EITEMAU MINIOG/GWASTRAFF CEMEGOL/GWASTRAFF CARTREF NEU AILGYLCHU/DIM MICRO-ORGANEBAU HYFYW/MEITHRINIADAU CELLOEDD**

DRAFT

**NI DDYLID RHOI BAGIAU OREN MEWN BINIAU GWASTRAFF CYFFREDINOL NA BINIAU AILGYLCHU ALLANOL**

DRAFT